# Caergybi

**Taith Gerdded Gylchol Arfordirol**

Mae gan *Gaergybi* lawer i'w gynnig: o adfeilion Rhufeinig, i gampau peirianyddol oes Fictoria. Mae canol y dref yn llawn caffis, siopau a thafarnau, ond i'r rheiny y mae'n well ganddynt daith gerdded fwy gwledig, mae *Parc Gwledig y Morglawdd* ychydig bellter o'r Marina, ar hyd y *Llwybr Arfordirol*.

**4.8km**

HAWDD

## Cyfarwyddiadau

**Gellir cychwyn y daith gylchol hon o gwmpas Caergybi yn unrhyw le. I gychwyn yn y *Marina*, dechreuwch ddarllen y cyfarwyddiadau isod yn ❶. I gychwyn yn yr *Orsaf Reilffordd*, dechreuwch yn ❷.**

### ❶ Y Marina i'r Orsaf Reilffordd

O'r Marina, ewch ar hyd y Promenâd gyda'r môr ar y chwith i chi. Pan gyrhaeddwch yr Amgueddfa Arforol, ewch i fyny'r stepiau a throwch i'r chwith heibio'r maes parcio bach. Ewch ar hyd y ffordd heibio'r maes chwarae a'r rhandiroedd. Dilynwch y ffordd rownd i'r dde heibio rhes o dai llety. Cadwch y ffens hir ar y chwith i chi. Gyferbyn â maes parcio, ceir casgliad o weithdai morol mawr, sy'n Adeiladau Rhestredig Gradd II. Yna, ar y dde i chi, ceir waliau'r Gaer Rufeinig, a stepiau at Eglwys Sant Cybi. Ar ôl maes parcio arall, dringwch y stepiau metel. Trowch i'r chwith ar ben y stepiau a chroeswch Bont y Porth Celtaidd i'r Orsaf Reilffordd.

### ❷ Yr Orsaf Reilffordd i Sgwâr y Farchnad

Ewch allan o'r Orsaf Reilffordd a throwch i'r dde tuag at y gylchfan, a chroeswch y fynedfa i'r Porthladd. Trowch i'r chwith ar hyd Ffordd Turkey Shore, heibio tai lliw pastel. Yn fuan, fe welwch arwydd brown Cofeb Skinner ar y dde i chi. Dringwch y stepiau i ymweld â'r gofeb ac edmygu'r golygfeydd dros y dref a'r harbwr. Dilynwch eich llwybr yn ôl at yr Orsaf Reilffordd, ond trowch i'r chwith ar ôl i chi groesi'r croesfannau sebra. Cerddwch i fyny at bont y rheilffordd. Hanner ffordd dros y bont, ar y dde, fe welwch Dwr y Cloc. Ar ôl croesi'r bont, trowch i'r dde i gyfeiriad canol y dref. Croeswch y ffordd yn y groesfan pelican, ac wrth Gofeb y Rhyfel, trowch i'r chwith, i fyny Stryd y Farchnad. Ewch ymlaen i fyny Stryd y Farchnad. Ar y dde, byddwch yn pasio rhodfa â theils glas, sef ochr y dref o Bont y Porth Celtaidd.

### ❸ Sgwâr y Farchnad i'r Marina

Wrth y Groes Garreg (mae'r ddau borth carreg bwaog ar y dde yn arwain at Eglwys Sant Cybi) ewch i'r chwith, ac yna i'r dde, i fynd heibio nifer o siopau, caffis a thafarnau. Ar y chwith, fe welwch borth haearn, sef y fynedfa i Neuadd y Farchnad. Ewch heibio tafarn y Stanley Arms, a dilynwch y ffordd rownd i'r chwith. Ewch ymlaen i fyny Stryd Newry, heibio Neuadd y Dref a chapel Bedyddwyr ar y dde. Dilynwch Stryd Newry heibio'r filas brics coch ar y chwith, ac i lawr yr allt at Ffordd y Traeth. Trowch i'r chwith ac ewch ar hyd Ffordd y Traeth heibio'r ardd isel yn ôl i'r Marina. ■

## Safleoedd dethol

● O **Gofeb Skinner**, ceir golygfeydd panoramig dros yr harbwr a'r dref. Mae'n coffáu'r *Capten John Skinner* a oedd yn byw yng Nghaergybi, er y'i ganwyd yn yr Unol Daleithiau ym 1760.


Gofeb Skinner

● Agorwyd y **Morglawdd** ym 1873, mae'n dal i fod yr hiraf yn y DU, a hwnnw'n 2.75km o hyd. Cyflogwyd 1,300 o ddynion i'w adeiladu. Erbyn hyn, mae'r chwarel lle cloddiwyd y cerrig ar ei gyfer yn barc gwledig.


Morglawdd Caergybi

● Adeiladwyd **Pont y Porth Celtaidd** mewn arddull pensaernïol tra modern. A hwnnw'n rhychwantu 160m, fe'i hagorwyd yn 2006, ac mae'n cysylltu canol y dref â'r orsaf reilffordd a therminws y fferi.


Pont Porth Celtaidd


Neuadd y Farchnad

● Adeiladwyd **Neuadd y Farchnad** ym 1855 gan y tirfeddiannwr a'r gwleidydd lleol *William Owen Stanley*. Fe'i defnyddiwyd fel marchnad, llys barn, barics milwrol, llyfrgell, a lleoliad bocsio.

● Yn adfeilion **Caer Rufeinig**, ceir adeilad atyniadol **Eglwys Sant Cybi** sy'n dyddio o'r 13eg ganrif. Wedi'i sefydlu yn 540AD gan Sant Cybi, cefnder i Dewi Sant, fe gafodd yr Eglwys ei hanrheithio gan Lychlynwyr yn y 10fed ganrif, a'i difrodi unwaith eto gan fyddinoedd goresgynnol *Harri'r IV* o Loegr ym 1405. Ceir **Eglwys y Bedd** yno hefyd, tybir mai hon ydy man gorffwys Serigi, sef gwron a chawr Gwyddelig o'r 6ed ganrif.


Eglwys Sant Cybi

© Hawlfraint y Goron / © Crown copyright (2025) Cymru Wales

● Gyda rhannau ohono o'r golwg bellach, a hwnnw braidd yn druenus yr olwg, cafodd **Bwa Siôr IV** ar *Ynys Halen* ei enwi i goffáu ymweliad y Brenin â'r dref ym 1821. Ond fe'i hadeiladwyd ym 1824 i nodweddu pen gogleddol ffordd A5 *Thomas Telford*, sy'n cysylltu Llundain â *Chaergybi*.


Bwa Siôr IV


Amgueddfa Arforol

● Yn **Amgueddfa Arforol** Caergybi, ceir nifer aneirif o fodelau, paentiadau, lluniau ac arteffactau sy'n ymwneud â llongau. Dyma hen orsaf y bad achub, sy'n dyddio o 1858, ac mae'n un o'r hynaf yng Nghymru.



Canolfan Ucheldre

● Man cymunedol amlbwrpas ydy **Canolfan Ucheldre**, sef hen adeilad capel lleiandy urdd lleianod *Bon Sauveur* Caergybi.

● Yr adeilad ger *Cofeb y Rhyfel* ydy hen dafarn yr **Eagle & Child Inn**, a godwyd ym 1770. Dyma fan cychwyn teithwyr a oedd yn mynd ar daith 48 awr coetsis y Post Brenhinol i Lundain.


Hen dafarn y coetsis mawr

Mapio a dylunio graffeg gan / Cartography and graphic design by www.fourpointmapping.co.uk © 2025

TAITH 11 WALK

# Caergybi / Holyhead

## *Taith Gerdded Gylchol Drefol / Circular Town Walk*

4.8km

HAWDD / EASY





DS: Nid yw'r ffaith fod ffordd neu lwybr yn cael ei gynrychioli ar y map hwn yn dystiolaeth o fodolaeth hawl tramwy cyhoeddus. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000825374. Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf.
NB: The representation on this map of a road or path is not evidence of the existence of a public right of way. © Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000825374. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

## Allwedd / Key

- Llwybr cerdded dan sylw / Featured walking route
  *Ceir arwyddion cyfeiriol bob 0.5km / Arrows are at 0.5km intervals*
- Llwybr yr Arfordir / Coast Path
- Llwybr Troed / Footpath
- Pwynt Cyfarwyddiadau / Instruction point
- Maes parcio / Car park
- Caffi / Café
- Gorsaf Reilffordd / Rail Station
- Golygfan / Viewpoint
- Cae chwarae / Playground
- Toiledau / Toilets
- Safle bysiau / Bus stop
- Grisiau / Steps

## Proffil uchder/ Elevation profile




Mapio a dylunio graffeg gan / Cartography and graphic design by www.fourpointmapping.co.uk © 2025